

GEIRIAU'R PROFFWYD?

Fe fydd 3,000 o ieithoedd y byd yn marw yn ystod y ganrif nesa'. Yn ôl David Crystal, yr ieithydd o Gaerdybi, mae'r Gymraeg yn ddiogel. Ac fe all dyfu os yw hi'n fodlon newid. Dyma ei bump gorchymyn.

STORI: KAREN OWEN
LLUNIAU: MARTIN ROBERTS

1. "Na fyddwch yn genedl o blismyn geiriau"

"Oherwydd hanes yr iaith Gymraeg," meddai David Crystal, awdur y **Cambridge Encyclopedia Of Language**. "mae'r Cymry Cymraeg yn gallu bod yn amddiffynnol iawn ohoni. Pan maen nhw'n ei chlywed hi'n cael ei siarad yn wael ar y teledu a'r radio, maen nhw'n sgwennu i fewn i gwyno. Dw i'n deall hyn, ond mae hi'n bosib mynd ag o'n rhy bell weithiau.

"Mae o'n gallu bod yn gylch dieflig. Mae angen hyder ieithyddol i allu derbyn bod rhai pobol yn torri rheolau, ac eto, mae torri rheolau yn gallu cael ei ystyried fel bygythiad gwirioneddol. Byddai unrhyw iaith sydd wedi gorfod byw yng nghysgod y Saesneg am ganrifoedd yn teimlo'r un fath."

Fe ddylai'r ysgolhaig o Gaerdybi wybod - mae'n cael ei ystyried yn arbenigwr blaenllaw ar yr iaith Saesneg ac yn awdur nifer o lyfrau safonol arni.

"Nid yn yr iaith Gymraeg yn unig mae o'n digwydd, cofiwch. Pan oedd gen i fy rhaglen fy hun ar Radio 4, roedd pobol yn arfer ffonio a sgwennu i mewn trwy'r amser yn tyngu sylw at gamgymeriadau. Ond i mi, mae pobol yn ffraeo ac yn trafod iaith yn rhywbeth i'w groesawu, oherwydd mae'n golygu bod yna newid yn digwydd.

"Iaith y mae pawb yn hapus â hi, iaith statig, sydd angen i Gymry Cymraeg ei hofni. A dw i ddim yn credu mai dyna ydi'r Gymraeg bellach. Mae ganddi hi eisoes ei safonau ysgrifenedig sicr, ac fe all hi ffordio symud ymlaen ac arbrofi gyda geiriau.


"Mae gwarchod yr iaith Gymraeg rhywbeth yn debyg i drênio ci. Dydach chi ddim yn gwybod cweit pryd y mae hi'n iawn i chi ei ollwng o oddi ar y lid yn gyfan gwbl. Rydach chi eisau ei gadw fo'n agos atoch chi rhag iddo fo redeg i ffwrdd yn wyllt a pheidio â dod yn ôl.

"Ond rydach chi hefyd yn gwybod bod yn rhaid i chi ei ollwng o rywbryd, er mwyn iddo fo gael rhedeg yn rhydd yng nghanol yr holl brofiadau newydd. Mae ieithoedd iaith y byd i gyd yn arbrofi trwy'r amser.

"Dw i ddim yn meddwl ei bod hi'n bryd i'r Gymraeg gael ei gollwng oddi ar y lid eto - ond fe ddaw yr amser yn reit fuan iddi redeg ochr yn ochr â ieithoedd eraill. A bryd hynny, fe fydd hi'n rhydd i dderbyn dylanwadau o bobol man o'i chwmpas. Ond oherwydd bod yr amser yn iawn, fydd hi ddim yn cael ei boddi, oherwydd fe fydd hi'n ddigon cry' i allu dewis a dethol y dylanwadau drwg a da."

2. "Na ddefnyddiwch jargon"

Un o wendidau mwya' y Gymraeg, yn ôl David Crystal, yw ei hiaith bwyllgorau. Mae creu jargon nad oes neb ond grwpiau dethol yn ei deall, yn arwydd y iaith ar drai, meddai. Ac mae gwrthod derbyn termau Saesneg, rhyngwladol, yn gosod chwydd-wydr ar ansicrwydd cenedl.



"Yr enghraifft glasurol yw'r gair *computer* yn Saesneg," meddai. "*Le computer* yn Ffrangeg, *der computer* yn yr Almaen, a phob fersiwn posib o'r gair ym mron iawn pob iaith arall yn y byd. Mae ganddoch chi eiriau eraill fel teleffôn sydd yn rhyngwladol, geiriau diweddar sydd yn cael eu rhannu gan ieithoedd.

"Ond y peth pwysica' yw bod pob iaith yn cadw ei hunaniaeth trwy ynganu'r termau 'estron' yma yn eu ffordd eu hunain. Ond be' wnaeth y Gymraeg? Bathu y term 'cyfrifiadu'r. I be?' Mae o'n cael ei alw'n gompiwtar ar lafar beth bynnag.

"Y ffordd y mae ieithoedd yn datblygu ar hyn o bryd yw trwy rannu geiriau a'u haddasu nhw i'w siwtio nhw i'w hunain. Dyna pam y mae'n rhaid i ni yng Nghymru fod yn ofalus pan ydan ni'n creu iaith bwyllgorau newydd - y

gwr ydi nad ydi'r rhan fwy' o bobol yn deall be' mae'r geiriau'n ei feddwl.

"Enghraifft arall yw y termau lle mae ganddoch chi'r geiryn *post-* ar y dechrau. Dydi hwn'na ddim yn air Saesneg, ond mae'r Cymry Cymraeg yn mynnu ei gyfieithu i ôl- rhywbeth neu'i gilydd. Fel yn ôl-foderniaeth, ôl-ffeministaidd...

"Wrth i dechnoleg ddatblygu, y peth gorau y gallai'r Gymraeg ei wneud yw tiwnio i mewn i'r iaith ryngwladol sydd yn cael ei defnyddio ar draws y byd, a defnyddio'r termau hynny mewn ffordd wedi eu Cymreigio. Gyda phwnc fel *tele-energetics*, mi fyddai'n wirion i'r Gymraeg fynd ati i gyfieithu hyn'na. Y peth calla' i'w wneud fyddai defnyddio'r un term - ond fe fyddai'n swnio'n wahanol i'r Saesneg gan bod ynganiad y Cymry yn wahanol.

"Dw i cofio mynd i'r rhybyddi unwaith, a'r nyrs yn dod draw ac yn dweud: 'Reit, Mr Crystal, dyma'ch *injection* chi.' Ond dyma lais o'r gwely dros y ffordd yn dweud: 'Does yna ddim ffasiwn air ag *injection* yn y Gymraeg - mewnsaethiad neu chwistrelliad ydach chi'n ei feddwl, ia?'

"Yr hyn wnes i a'r nyrs oedd chwerrhin am ei ben o. Roedd y geiriau yn swnio mor chwerrhinllyd. A dydan ni ddim eisau i'r Gymraeg fod yn destun gwawd."

3. "Na phoenwch am gollu eich hunaniaeth"

"Yn fy marn i," meddai David Crystal, "does dim eisau i ni boeni am ieithoedd yn toddi i'w gilydd - wnawn nhw byth hynny am ddau reswm:

"Yn gynta', am mai pwrpas cael iaith yw i ni gael deall ein gilydd, ac yn ail am ein bod ni eisio teimlo ein bod ni'n perthyn i griw o bobol debyg i ni'n hunain. Rydan ni i gyd yn blwyfol yn y bôn. Oherwydd yr ail reswm yna, dw i'n credu y bydd yr ieithoedd eu hunain yn rhoi *buffers* allan pan maen nhw'n teimlo bod yna ormod o dylanwad gan iaith estron fel y Saesneg.

"Mae o eisoes wedi dechrau digwydd yn Ffrainc - mae hi'n anghyfreithlon i ddefnyddio'r gair *weekend* ar bosteri a hysbysebion - ac fe allwch chi gael eich ffeinio. Dyna beth yw *language policing* go iawn. Mae'r Ffrancwyr wedi bod yn bryderus ynglŷn â dylanwad y Saesneg ers tro byd, ac maen nhw'n gwneud rhywbeth i drio adfer y sefyllfa rwan.

"Mae o'r un fath yng Nghymru. Mae'r iaith Gymraeg yn diffinio pam ein bod ni'n wahanol i'r Saeson. Mae hi'n ffin arall rhwng dwy wlad sydd yn gorwedd drws nesa' i'w gilydd. A thra bydd hi, fe fyddwn ni'n teimlo ein bod ni'n bobol ar wahân."

4. "Nac wfftiwch acenion newydd"

Mae'r rhaglen deledu **Pam Fi, Duw?** yn enghraifft berffaith o bedwerydd gorchymyn David Crystal. Oherwydd mae e'n credu y dylai pawb gael mwy nag un fersiwn o'r iaith Gymraeg, a'u bod nhw'n gallu newid o

"Mae gwarchod yr iaith Gymraeg rhywbeth yn debyg i drênio ci ..."

un i'r llall mewn gwahanol sefyllfaoedd.

"Yn yr Arabeg, mae ganddoch chi'r iaith safonol, ysgrifenedig, sydd yn cael ei hystyried yn iaith y Koran," meddai. "Wedyn, mae ganddoch chi gymaint o amrywiaeth o dafodieithoedd sydd wedi deillio o'r iaith safonol nes eu bod nhw'n methu â deall ei gilydd. Dydi pobol mewn tre' glan môr ym Morocco ddim yn gallu deall Eifffiaid. Y canolbwynt i'w cyfathrebu nhw â'i gilydd ydi iaith safonol y Koran.

"Rwan, dw i ddim yn dweud y bydd hi'n mynd felly yng Nghymru, ond mae ganddon ni amrywiaeth o bobol sydd yn siarad Cymraeg mewn ffyrdd amrywiol. Mae ganddon ni wahanol rannau o'r wlad yn siarad eu tafodieithoedd eu hunain ond, yn fwy na hynny, mae ganddon ni bobol yn siarad y Gymraeg ar wahanol lefelau. Dw i'n credu y dylai pob person allu siarad Cymraeg mewn nifer o wahanol ffyrdd.

"Er enghraifft, os ydw i'n mynd at gynghorydd yng Nghaerdybi a gofyn am ei help o, yna dw i'n mynd i siarad yn reit werinol a defnyddio cymaint ag y galla i o ymadroddion lleol a geiriau y mae pobol Caerdybi yn eu defnyddio. Os ydw i'n siarad efo fo yn Saesneg, dw i'n gollwng ambell i air Cymraeg i mewn, er mwyn cryfhau'r teimlad lleol.

"Ond os ydw i'n annerch seminar byd-eang, fe fydd fy Saesneg i yn dipyn mwy ffurfiol. Fydd yna ddim cyfeiriadau lleol o gwbl, ac fe fydda i'n sticio at eiriau y mae pawb yn mynd i'w deall nhw yn syth.

"Y peth trista' un allai ddiwydd yng Nghymru yw i ni gael carfan o bobol sydd ond yn gallu siarad un math o Gymraeg, a honno'n iaith ffurfiol. Efallai bod hymny'n dweud rhywbeth wrthan ni am y cyfnod y cawson nhw eu magu ynddo fo - cyfnod pan oedd y Gymraeg yn cael ei dysgu o lyfr.

"Bellach, mae Cymry Cymraeg yn gallu gwneud popeth yn Gymraeg, ac maen nhw'n derbyn dylanwadau o'r tu allan i'r wlad. Mae hi'n naturiol bod y geiriau yna yn llithro i mewn i'w iaith lafar nhw hefyd."

5. "Nac ofnwch y Saesneg"

"Mae tyfiant yn golygu newid," meddai David Crystal. "Ac mae newid yn golygu newid go iawn. Does ond eisiau i chi edrych ar yr iaith Saesneg i sylweddoli bod tyfiant yn golygu benthyg a dwyn geiriau o bob gwlad yn y byd a'u troi nhw i'ch melin eich hun.

"Y Saesneg yw *hoover* y byd ieithyddol - mae hi wedi, ac yn, crwydro'r byd yn benthyg geiriau er ei mwyn ei hun. Mae hi'n eu Saesnigeiddio nhw ac yn tyfu wrth wneud. Yn yr un ffordd, fe allai'r Gymraeg dyfu os ydi hi'n fodlon derbyn geiriau Saesneg.

"A does dim angen i ni fod ofn yr iaith Saesneg. Yn hytrach, fe allwn ni ddysgu ganddi hi. Peidiwch â phoeni os ydi pobol yn siarad y Wenglish bondigrybyll. Mi es i lawr i ddisgwyl am y bws y diwrnod o'r blaen, a dyma hogan yn dweud wrtha' i: 'Mae'r bws *five minutes* yn *late*.'"

"Yr unig reswm bod y Saesneg wedi datblygu i fod yn iaith ryngwladol ydi am ei bod hi wedi bod yn y lle iawn ar yr amser iawn. Mae hi'n gry' oherwydd pŵer gwleidyddol yr Ymerodraeth Brydeinig. Wedyn fe ddaeth y Chwyldro Diwydiannol, a'r pŵer technolegol o hynny. Wedyn fe ddaeth pŵer economaidd y 19eg ganrif. Ac yn ystod y ganrif hon, dylanwad diwylliannol America sydd wedi rhoi *boost* i'r Saesneg. Mae hi'n iaith sydd wedi bod yn lwcus iawn.

"Wrth gwrs, mewn byd sydd yn lleihau yn ei faint heddiw, mae gan y Saesneg nifer o broblemau hefyd. Yr hyn sydd yn digwydd erbyn hyn yw bod nifer o wledydd yn hawlio'r Saesneg fel eu hiaith nhw, fel bod Lloegr yn colli gafaél, colli *control* ami. Mae gan Awstralia, America ac India eu fersiynau eu hunain bellach - fe allan nhw ddatblygu i fod yn wahanol iawn i'w gilydd.

"Felly mae'r Saesneg dan fygythiad hefyd. Ac yn y ganrif nesa', pan fydd tua 3,000 o ieithoedd y byd yn dod i ben, mae'r Gymraeg mewn sefyllfa well nag ers sbel."

